UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# AMODAU GWAITH: SWYDDOG AELODAETH A CHYLLID

**AMODAU GWAITH**

Noder: (i) Mae UCAC yn gyflogwr cyfle cyfartal.
(ii) Ymgorfforir telerau cyfredol y Llyfr Gwyrdd Statws Sengl *(National Agreement on Pay and Conditions of Service)* yng nghytundeb y gweithwyr.
(iii) Rhaid i bob aelod o staff brofi'r hawl i fod ac i weithio yn y DU.
(iv) Cyfraith Cymru a Lloegr sydd yn berthnasol i gytundeb gweithwyr UCAC.

**1. Dyddiad cychwyn cyflogaeth**
15 Mai 2017 (os yn bosib)

**2. Lleoliad y swydd**
Lleolir y swydd ym Mhrif Swyddfa UCAC yn Aberystwyth; disgwylir teithio i rai cyfarfodydd a thelir costau cynhaliaeth yn ôl yr hyn a bennir gan Gyngor Cenedlaethol UCAC.

**3. Cyflog**
Pwynt 27-30 ar Raddfa Gyflogau UCAC sydd yn seiliedig ar Raddfa Gyflogau'r Awdurdodau Lleol. Telir y cyflog yn fisol drwy daliad BACS.

Pwynt 27 wrth gychwyn y cytundeb.

Adolygir y cyflog yn flynyddol yn ôl telerau'r Llyfr Gwyrdd. Nid oes unrhyw oblygiad ar UCAC i gynnig codiad cyflog blynyddol.

**4. Oriau gwaith**
Oriau gwaith arferol y swydd yw 35 awr yr wythnos. Amser cychwyn a gorffen i'w drafod.

**5. Gwyliau**
Bydd hawl gan y Swyddog Aelodaeth a Chyllid i 25 o ddiwrnodau gwaith mewn blwyddyn gan godi i 28 diwrnod gwaith ar ôl tair blynedd o wasanaeth.

**Gwyliau banc**
Yn ychwanegol at y gwyliau blynyddol, mae gan weithwyr UCAC hawl i 13 diwrnod gŵyl.

**6. Absenoldeb salwch**
Mae gan UCAC Gynllun Tâl Salwch.

**7. Pensiwn**
Mae gan UCAC Gynllun Pensiwn.

**8. Talebau gofal plant**
Mae UCAC yn darparu cynllun aberthu cyflog (*salary sacrifice*) ar gyfer talebau gofal plant.

**9. Cynllun Tâl Marwolaeth mewn Gwasanaeth**
Darperir Tâl Marwolaeth mewn Gwasanaeth unwaith y bydd y Swyddog Aelodaeth a Chyllid wedi cwblhau o leiaf tri mis o wasanaeth di-dor i'r cyflogwr, sef UCAC. Bydd unrhyw daliad yn ddibynnol ar delerau'r polisi.

**10. Cyfrinachedd**
Mae cyfrinachedd yn holl bwysig i waith UCAC ac mae'r ddyletswydd cyfrinachedd yn berthnasol yn ystod, ac ar ôl, cyflogaeth.